PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 10

# Dirprwyo Pwerau i Gadeiryddion Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 10
# Dirprwyo Pwerau i Gadeiryddion Pwyllgorau

1. Awdurdodir cadeiryddion y Cyngor, y Senedd a’u priod bwyllgorau drwy hyn i benderfynu ynghylch materion brys ar ran y corff y maent yn ei gadeirio.

2. At ddibenion yr Ordinhad hwn, bernir bod 'materion brys' yn cynnwys:

    a) materion yn ymwneud â gweithredu'n fanwl faterion a pholisïau y penderfynwyd arnynt eisoes gan y corff dan sylw; neu
    b) cyflawni busnes arferol nad yw'n ddadleuol, neu
    c) faterion y byddai oedi yn eu cylch yn debygol o greu anhawster diangen a/neu beryglu buddiannau'r Brifysgol.

3. Rhoddir gwybod am unrhyw gamau gweithredol a gymerir gan gadeirydd o dan delerau'r Ordinhad hwn yn ysgrifenedig neu ar lafar i gyfarfod nesaf y corff dan sylw. Dylid nodi'r camau gweithredu a adroddwyd yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

4. Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredol o'r fath, gall y Cadeirydd ymgynghori'n anffurfiol ag unrhyw aelodau o'u Pwyllgor sy'n briodol yn eu barn hwy.

5. Bydd gan unrhyw Gadeirydd sy'n ystyried bod mater brys a gyfeiriwyd ar gyfer penderfyniad gweithredol yn haeddu ystyriaeth gan y corff dan sylw y pŵer i gynnull cyfarfod arbennig o'r corff i ystyried y mater penodol hwnnw.  Bydd unrhyw gyfarfod arbennig o'r fath yn cael ei gynnal, naill ai yn y cnawd neu'n rhithiol, o fewn 7 niwrnod i benderfyniad y cadeirydd i gynnull cyfarfod, ni waeth beth fo darpariaethau unrhyw Reolau Sefydlog sy’n berthnasol i'r corff hwnnw yr ystyrir eu bod wedi eu hatal dros dro i ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal.